Charles Haddon Spurgeon 1834–1892

Efengylydd a Gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Ganwyd Charles Haddon Spurgeon ar 19 Mehefin 1834 yn Kelvedon, Essex, yr hynaf o 17 o blant John ac Eliza Spurgeon. Roedd ei dad yn glerc mewn cwmni glo a llongau, ac aeth yn ddiweddarach i fod yn weinidog Annibynnol.

Rhwng 1835 a 1841 bu'n byw gyda'i nain a'i daid yn Essex. Dylanwadodd ei daid – a oedd yn weinidog eglwys Annibynnol Stambourne – yn drwm iawn arno. Pan oedd yn ifanc yr oedd C. H. Spurgeon yn ddarllenwr brwd o weithiau Bunyan, Foxe a diwinyddion Piwritanaidd eraill ac fe aeth i ysgol bentref Stambourne. Ym 1844 dychwelodd at ei deulu a oedd erbyn hynny yn Colchester. Aeth i ysgol Henry Lewis, sef Stockwell House, Coleg Amaethyddol Anglicanaidd yn Maidstone ac yna ysgol John Swindell yn Newmarket i astudio Ffrangeg a Groeg.

Cafodd dröedigaeth ar 6 Ionawr 1850 wrth wrando ar bregethwr o blith y Methodistiaid yn Colchester. Wedi blynyddoedd o ing wrth ymgodymu â'i gyflwr fel pechadur fe ddaeth ei dröedigaeth â llawenydd a grym digymysg a effeithiodd ar ei weinidogaeth i'r dyfodol. Roedd yn un o'r pregethwyr mwyaf gwreiddiol ac effeithiol a welodd Lloegr erioed. O fewn wythnosau dechreuodd rannu tractiau ac ymunodd â'r eglwys Gynulleidfaol yn Newmarket ac ar 3 Mai 1850 fe'i bedyddiwyd yn yr afon Lark gan y Parch William Cantlow, Isleham. Symudodd i Gaergrawnt i helpu mewn ysgol a dechreuodd bregethu. Bu am ddwy flynedd yn helpu mewn eglwys yn Waterbeach ac yna gofynnwyd iddo bregethu yn New Park Street, Southwark. Roedd yr achos hwn yn prysur edwino ond trwy ei ddylanwad cynyddodd y gynulleidfa yn fawr. Nid oedd Llundain wedi gweld unrhyw un tebyg iddo ers George Whitefield. Priododd Susannah Thompson yn 1856 ac fe gawsant ddau fab. Dechreuodd rentu Exeter Hall yn y Strand er mwyn cyflwyno'r Efengyl i gynulleidfaoedd mwy. Tyrrai pobl i wrando arno. Pregethodd un tro i dorf o 24,000 yn y Crystal Palace. Ym mis Mawrth 1861 symudodd i'r capel newydd a

adeiladwyd yn arbennig ar ei gyfer, sef y Metropolitan Tabernacle yn yr Elephant and Castle, Llundain. Costiodd y Metropolitan £31,000 ac roedd lle ynddo i rhwng 5,000 a 6,000 o addolwyr. Arhosodd C. H. Spurgeon yn weinidog yno hyd ei ymddeoliad.

Roedd hefyd yn awdur toreithiog. Rhwng 1855 a 1917 cyhoeddwyd 3,500 o'i bregethau yn y llyfryn *Metropolitan Tabernacle Pulpit*. Roedd cyfartaledd gwerthiant wythnosol y llyfrynnau hyn rhwng 25,000 a 30,000 a chyfieithwyd hwy i yn agos i ddeugain o ieithoedd. Cyhoeddodd hefyd lawer o lyfrau eraill fel *John Ploughman's Talk* (1868), *The Saint and the Saviour* (1857), *The Interpreter* (1874), a'r enwog *The Cheque Book of the Bank of Faith* (1888). Sefydlodd hefyd y Pastors' College ym 1856 er mwyn hyfforddi pregethwyr addawol beth bynnag oedd eu cefndir ariannol ac addysgol. Pwysleisiwyd yn y coleg hwn ennill eneidiau yn hytrach nag ysgolheictod. Bu farw ar 31 Ionawr 1892 yng ngwesty'r Beau Rivage, Menton, o glefyd Bright a oedd wedi effeithio ar ei arennau. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Norwood ar 11 Chwefror.